COMMISSION FOR RACIAL EQUALITY
COMISIWN CYDRADDOLDEB HILIOL




# ADRODDIAD BLYNYDDOL 2002 CYMRU

Sefydlwyd y Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol gan Ddeddf Cysylltiadau Hiliol 1976. Mae ganddo dri o brif ddyletswyddau.

- Gweithio tuag at ddileu gwahaniaethu hiliol.
- Hyrwyddo cyfle cyfartal a chysylltiadau da rhwng pobl o wahanol grwpiau hiliol.
- Cadw'r Ddeddf o dan arolwg a gwneud argymhellion i'r Ysgrifennydd Gwladol i'w diwygio.

Cyflwynodd Deddf Cysylltiadau Hiliol (Diwygiad) 2000 newidiadau pellgyrhaeddol i Ddeddf 1976.

- Mae'r Ddeddf bellach yn ymdrin â phob swyddogaeth gyhoeddus
- Mae'n rhoi dyletswydd statudol i awdurdodau cyhoeddus hyrwyddo cydraddoldeb hiliol
- Mae'n rhoi grym newydd i'r Comisiwn i orfodi cydymffurfiad

© Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol
St Dunstan's House
201-211 Borough High Street
Llundain SE1 1GZ

Cyhoeddwyd Mehefin 2003
ISBN 1 85442 517 X
Lluniau y dawr (L-R): Phillip Wolmuth / Report-digital; CRE; Joanne O'Brien; CRE

COMMISSION FOR RACIAL EQUALITY

COMISIWN CYDRADDOLDEB HILIOL

ADRODDIAD BLYNYDDOL Y

# COMISIWN CYDRADDOLDEB HILIOL YNG NGHYMRU

1 IONAWR 2002

31 RHAGFYR 2002

# RHAGAIR

Roedd 2002 yn flwyddyn anodd ond yn un gyffrous i ni yng Nghymru. Daeth Deddf Cysylltiadau Hiliol (Diwygiad) 2000 i rym llawn ar 31 Mai 2002 a dylanwadodd ar bob agwedd o'n gwaith. Bu i ni wynebu'r her o sicrhau bod yr holl awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru yn gwybod beth oedd eu cyfrifoldebau newydd o dan y Ddeddf, ac eu bod nhw wedi mynd garreg filltir gyntaf yn llwyddiannus drwy gyhoeddi eu cynlluniau cydraddoldeb hiliol (neu bolisïau, ar gyfer sefydliadau addysgol) erbyn y dyddiad terfyn.

Ond efallai mae ein her fwyaf oedd perswadio sefydliadau yng Nghymru i fynd ymhellach na'r rhethreg a dechrau gweithredu – gwneud yn ogystal â dweud. Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi gwneud cynnydd cyffrous i ysgogi ac ysbrydoli eraill i ymdrin â hiliaeth yn fwy effeithiol ac i hyrwyddo cysylltiadau hiliol yn eu holl weithgareddau.


CRE

Gan weithredu ar sail ein hamcanion corfforaethol o hyrwyddo a chyflwyno'r ddyletswydd y sector cyhoeddus newydd, cysylltu â phob cymuned a chreu perthynas gadarnhaol gyda'r sector preifat, rwy'n hyderus y bydd ein gwaith yng Nghymru yn gwneud gwahaniaeth tymor hir i fywydau pobl o leiafrifoedd ethnig yng Nghymru, ac i gydraddoldeb ar gyfer ei holl ddinasyddion. Byddwn yn parhau i gefnogi ein partneriaid niferus i geisio cael tegwch i bawb, a chynghori a helpu'r rhai sy'n cwyno i geisio unioni cam.

Ond mae sicrhau cydraddoldeb yn dal yn frwydr anodd. Nid yw anghyfartaledd hiliol yn beth newydd i Gymru ac mae wedi bodoli yn ein dinasoedd, trefi a phentrefi ers cenedlaethau. Yn ystod 2002 gwelwyd tystiolaeth ddifrifol o ba mor bell sydd gennym eto i fynd, gyda mwy a mwy o ddigwyddiadau hiliol yn cael eu hadrodd yn y cyfryngau. Ym mis Mehefin, bu farw Mohammed Ashraf o drawiad ar y galon ar ôl gweld gang hiliol o ddeuddeg o ddynion gwyn yn ymosod ar addolwyr mewn oed ei gynulleidfa, wrth iddynt fynd tuag at y mosg lleol yn Llanelli. Yn Abertawe gerllaw, cafodd adeilad y gynulleidfa Hebreig ei ddifwyno gydag arwyddion a sloganau hiliol, malwyd ffenestri a chafodd ysgrythurau, gan gynnwys sgrôl 300 mlwydd oed, eu rhwygo y tu allan.

Rhaid i mi beidio â rhoi i fyny, oherwydd credaf y bydd newid yn dod, ac yn llawer cyflymach yn awr gan fod gan lawer o awdurdodau cyhoeddus a sefydliadau addysgol gynllun cydraddoldeb hiliol neu bolisi cydraddoldeb hiliol cadarn a chynhwysfawr yn bodoli.

Rydym yn ddyledus am yr hyn a gyflawnwyd yn yr adroddiad blynyddol hwn i'r gydnabyddiaeth gyhoeddus gynyddol a roddir i bwysigrwydd cydraddoldeb hiliol a'r nifer cynyddol o gyrff cyhoeddus a phreifat sydd wedi ymrwymo i newid gwirioneddol. Hoffwn hefyd dalu teyrnged i'n staff yng Nghymru sydd wedi gweithio gydag ymroddiad ac ymrwymiad diflin, drwy gyfnod anodd, i sicrhau Cymru gynhwysol.



**Cherry Short**
Cadeirydd, Pwyllgor CCH Cymru

# 1 GWEITHIO DROS GYDRADDOLDEB HILIOL

Treuliwyd y rhan helaeth o'r flwyddyn ar waith paratoi a hyrwyddo ynghylch y ddyletswydd newydd i hyrwyddo cydraddoldeb hiliol o dan Ddeddf Cysylltiadau Hiliol (Diwygiad) 2000, a ddaeth i rym llawn ar 31 Mai 2002. Cyhoeddodd nifer o awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru eu cynlluniau neu bolisïau cydraddoldeb hiliol (os oeddynt yn sefydliadau addysgol) ar neu oddeutu'r dyddiad hwn, a welodd hefyd lansio ein cod ymarfer statudol ar y ddyletswydd, a chanllawiau eraill.

Treuliwyd pum mis cyntaf y flwyddyn yn ymateb i ymholiadau niferus oddi wrth y cyhoedd. Roedd y rhain yn amrywio o geisiadau am wybodaeth oddi wrth gyrff gwirfoddol yn dymuno gwybod a oedd y ddeddf yn berthnasol iddyn nhw yn rhinwedd eu gwaith fel contractwyr ar gyfer gwasanaethau cyngor hyd at geisiadau mwy cymhleth am gyngor ynghylch: cynnal asesiadau effaith, ychwanegu grwpiau ethnig at y rhai hynny a gynhwyswyd yn y cyfrifiad ac a argymhellwyd ar gyfer monitro: a goblygiadau'r ddyletswydd newydd ar gyfer yr iaith Gymraeg, yn arbennig mewn ardaloedd gwledig, lle ceir niferoedd mawr o siaradwyr Cymraeg.

Bu i ni drefnu amrywiaeth o ddigwyddiadau – seminarau, gweithdai a chynadleddau – i drafod pryderon mewn sectorau arbennig. Er enghraifft, ym mis Chwefror, bu i ni gynnal cynhadledd, Tu Hwnt i Rethreg, ar gyfer cyrff gwirfoddol yng Nghymru, i drafod eu rôl o dan y Ddeddf ddiwygiedig. Trefnwyd y gynhadledd mewn partneriaeth gyda Rhwydwaith y Sector Gwirfoddol Ddu a Rhwydwaith Cydraddoldeb Hiliol Gogledd Cymru. Rhoddodd Jane Hutt, y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, a Chomisiynydd y CCH Cherry Short, areithiau cyweirnod. Roedd y digwyddiad yn llwyddiant mawr a rhoddodd cyfle i ni ehangu ein cysylltiadau. Un canlyniad cadarnhaol iawn oedd y cytundeb y bu i ni ei ffurfio gyda Chymdeithas Genedlaethol y Canolfannau Cynghori yng Nghymru (CGCC Cymru) i weithio gyda'n gilydd i annog pobl i adrodd am ddigwyddiadau hiliol.

## Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Ym mis Mawrth, cawsom ein gwahodd i ymuno a'r Grŵp Adolygu Tai Lleiafrifoedd Ethnig a Du Cenedlaethol, a sefydlwyd i ddatblygu, monitro ac adolygu cynllun gweithredu tai ar gyfer lleiafrifoedd ethnig cenedlaethol. Roedd y grŵp yn cynnwys cynrychiolwyr o gymdeithasau tai amrywiol, cyrff gwirfoddol a Chynulliad Cenedlaethol Cymru (CCC). Lansiwyd y cynllun gweithredu gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ym mis Medi.



Bu i ni barhau i chwarae rhan weithredol yng nghyfarfodydd bord gron y sector cyhoeddus, a gadeirir gan Carwyn Jones AC, Gweinidog dros Lywodraeth Agored, yn ogystal â mynychu'r Pwyllgor Cyfle Cyfartal.

Bu i ni ymateb i nifer fawr o ddogfennau ymgynghori yn ystod y flwyddyn, fel 'Dangosyddion perfformiad i gefnogi rhaglen Cymru ar gyfer gwelliant 2003 – 2004', lle bu i'n cyflwyniad sicrhau bod dangosyddion perfformiad yn ymwneud â chydraddoldeb hiliol yn cael eu gosod i awdurdodau lleol.

Bu i ni groesawu'r newydd fod uned polisi cydraddoldeb y CCC wedi bod yn gweithio ar archwiliad cydraddoldeb mewnol, fel y cam cyntaf tuag at werthuso cynnydd wrth roi ystyriaeth i gydraddoldeb yn y swyddogaethau a'r polisïau a gyflawnir gan isadrannau amrywiol y Cynulliad. Roedd yr archwiliad yn rhannol yn ymateb i adroddiad Roger McKenzie ar hiliaeth sefydliadol yn nogfen y CCC, *Codi Pob Llais*. Roedd yr archwiliad yn cynnwys holiadur manwl i'w gwblhau gan benaethiaid yr isadrannau. Dadansoddwyd yr ymatebion a rhoddwyd pob isadran o fewn 'proffil aeddfedrwydd o ran cydraddoldeb' i fesur cynnydd. Bu i ni awgrymu cwestiynau i'w cynnwys yn yr holiadur a rhoi sylwadau ynglŷn â'r proffil aeddfedrwydd.

Mae CCH Cymru wedi bod yn gweithio gyda'r CCC i wella a datblygu ei agwedd at ei gynllun cydraddoldeb hiliol ymhellach, enghraifft o hyn yw sefydlu bwrdd prosiectau cynllun cydraddoldeb hiliol mewnol, a gadeirir gan y cyfarwyddwr personel. Mae aelodau'r bwrdd yn cynnwys cyfarwyddwyr ac uwch weision sifil o'r CCC. Prif elfen cylch gorchwyl y bwrdd yw




▲ Cyhoeddwyd taflen newydd am hawliau pobl o dan y Ddeddf Cysylltiadau Hiliol ddiwygiedig yn y Gymraeg a'r Saesneg.

cyflwyno cynllun cydraddoldeb hiliol y Cynulliad.

Yn 2002, bu i ni sefydlu tîm dyletswydd gyhoeddus y CCH Cymru. Ei brif amcan yw casglu a rhannu gwybodaeth ynglŷn â'r cynnydd y mae awdurdodau mewn gwahanol sectorau yn ei wneud i weithredu'r ddyletswydd, a datblygu agwedd broactif at ein gwaith yn ymwneud â'r ddyletswydd, fel rhan o'r strategaeth gyffredinol ar gyfer CCH Cymru.

## Llywodraeth Leol

Sicrhawyd ein llwyddiant mwyaf yn y sector hwn drwy gydweithio ag asiantaethau strategol o fewn y sector. Bu i ni weithio'n agos gyda'r uned cydraddoldebau newydd a sefydlwyd gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) i hyrwyddo'r dyletswyddau penodol y mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi eu rhoi ar awdurdodau cyhoeddus i'w helpu i fodloni'r ddyletswydd statudol gyffredinol i hyrwyddo cydraddoldeb hiliol. Gyda'n gilydd, bu i ni lwyddo i ddadansoddi'r ffyrdd y gallai awdurdodau lleol roi eu cynlluniau cydraddoldeb hiliol (y bu yn rhaid iddynt eu cynhyrchu a'u cyhoeddi o dan un o'r dyletswyddau penodol) ar waith o fewn cyd-destun y Safon Cydraddoldeb ar gyfer Llywodraeth Leol. Roedd gweithdai CLlLC – Gweithredu Cynlluniau Cydraddoldeb Hiliol – chwe mis yn ddiweddarach! – y bu i ni gymryd rhan ynddynt, yn fforwm defnyddiol ar gyfer trafodaethau mwy manwl gydag awdurdodau lleol.

Bu i ni hefyd greu cysylltiadau ardderchog gyda Syniad, gan arwain at ddau weithdy llwyddiannus iawn yn ymwneud â 'chefnogi a rhannu gwybodaeth' i awdurdodau lleol yng Nghaerdydd ac yn yr Wyddgrug ym mis Chwefror.

O ganlyniad uniongyrchol i'r gweithdai hyn, gofynnwyd i ni gan Gyngor Dinas a Sir Abertawe drefnu digwyddiad tebyg ar gyfer Fforwm aml asiantaethol Pathways yn Abertawe. Bu i ni ddatblygu tair rhaglen wahanol ynglŷn â'r ddyletswydd gyffredinol, cydrannau cynllun cydraddoldeb hiliol, a pholisïau cydraddoldeb hiliol ar gyfer sefydliadau addysgol. Croesawyd y gweithdai, gyda'r cynrychiolwyr yn dweud eu bod yn teimlo'n gliriach ynghylch pwrpas y dyletswyddau, a'u cyfrifoldebau.

Yn ogystal â'r agweddau cytun hyn, bu i ni ymateb i geisiadau am gyfarfodydd gydag awdurdodau lleol unigol, i'w cynghori am y dyletswyddau a'r sialensau a'r materion penodol y gallent eu hwynebu wrth gynhyrchu cynlluniau cydraddoldeb hiliol ar gyfer eu hardaloedd. Er enghraifft, gofynnwyd i ni gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Castell Nedd a Phort Talbot roi cyflwyniad i'w fwrdd llywio cydraddoldebau oedd yn cynnwys holl gyfarwyddwyr y meysydd gwasanaeth yn yr awdurdod.

Ym mis Mehefin, bu i ni fynychu cyfarfod rhwydweithio diddorol yn ymwneud â chydraddoldeb gyda'r chwe awdurdod lleol yng Ngogledd Cymru (Ynys Môn, Gwynedd, Sir y Fflint, Conwy, Wrecsam a Sir Ddinbych) i glywed am eu profiadau o gynhyrchu cynlluniau.

Yn 2002, sefydlwyd grŵp cyfeirio llywodraeth leol, yn cynnwys swyddogion o Gyngor Sir Caerdydd, y CCC, ac uned cydraddoldebau CLlLC, i gyfnewid gwybodaeth am ddatblygiadau ym mhob corff, gan ganolbwyntio ar eu cynlluniau cydraddoldeb hiliol.

## Tai

Yn ystod 2002, bu i ni barhau i gymryd rhan (fel sylwebyddion) yng nghyfarfodydd bwrdd llywio'r Prosiect Tai Lleiafrifoedd Ethnig a Du, a gyllidir gan CCC ac a noddir gan Gymdeithas Lleiafrif Ethnig Cymru Gyfan (AWEMA), Cymdeithas Ddu Merched yn Camu Allan, Cymdeithas Tai Cadwyn, Cymdeithas Tai Cymunedol Caerdydd a Thai Taf. Prif gamp y prosiect yn 2002 oedd gwneud argymhellion i'r CCC ynglŷn â sefydlu cymdeithas dai a arweinir gan leiafrif ethnig yng Nghymru.

Bu i ni hefyd gyfarfod â chyfarwyddwr cynorthwyol Gwasanaeth Ymgynghorol Cyfranogiad Tenantiaid Cymru i drafod ffyrdd o hysbysu ei denantiaid a'i gleientau am y Ddeddf ddiwygiedig.

## Arolygiaethau

Un o'n blaenoriaethau yn ystod 2002 oedd hyrwyddo ein fframwaith ar gyfer arolygiaethau. Datblygwyd y fframwaith i helpu asiantaethau arolygu a rheoleiddio i ddefnyddio eu harolygiadau i wneud yn sicr bod awdurdodau yn bodloni eu dyletswyddau o dan y Ddeddf ddiwygiedig yn

llawn ac yn effeithiol.

Bu i ni bwyso ar arolygiaethau yng Nghymru i gynnwys ein *Fframwaith ar gyfer Arolygiaethau* o fewn eu protocolau arolygu. Ym mis Hydref, bu i ni annerch fforwm arolygu ynghylch rôl arolygwyr. Bu i ni hefyd gyfrannu at raglen hyfforddi Estyn (arolygiaeth ysgolion a cholegau yng Nghymru) ar gyfer arolygwyr annibynnol ynghylch amrywiaeth yn y sector meithrin nas cynhelir yn ogystal ag mewn ysgolion cynradd ac uwchradd yng Nghymru. Cawsom gyfarfodydd cynhyrchiol gyda'r Comisiwn Archwilio i drafod cytundebau gydag arolygiaethau ynghylch rhannu gwybodaeth am y modd y mae awdurdodau yn cydymffurfio gyda'r dyletswyddau.

Cawsom hefyd gyfarfodydd gyda'r Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol, Arolygiaeth Safonau Gofal, Estyn a'r Comisiwn Archwilio i drafod ein hargymhellion ar gyfer memorandwm dealltwriaeth.

## Iechyd

Ym mis Ebrill, bu i ni drefnu cynhadledd ar gyfer pobl broffesiynol ym maes iechyd ac aelodau o gymunedau o leiafrifoedd ethnig ar y cyd gydag Ymddiriedolaeth Gofal Iechyd Gwent ac Uned Cydraddoldeb y GIG ar y testun o 'Greu gwasanaeth hyfedrus yn ddiwylliannol: ymchwilio i gydraddoldeb hiliol mewn trefn llywodraeth glinigol'.

Yng Ngogledd Cymru, bu i ni gydweithio gyda Rhwydwaith Cydraddoldeb Hiliol Gogledd Cymru a nifer o ymddiriedolaethau iechyd i gynnal sesiynau gwybodaeth a chefnogaeth ynghylch datblygu cynlluniau cydraddoldeb hiliol effeithiol ym maes iechyd.

Yn ogystal â chyfranogi mewn fforymau cyhoeddus fel y rhai hynny a gynhaliwyd gan Grŵp Cynhwysiant Cymdeithasol GIG Cymru i glywed beth mae cymunedau yn ei feddwl, bu i ni gymryd rhan mewn nifer o gyfarfodydd y tu ôl i'r llenni gyda chyrff fel Comisiwn Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru, Grŵp Ymgynghorol Comisiynu Uniongyrchol y GIG, Fforwm Gwasanaethau Cynghori Gofal Cymunedol ac Iechyd Meddwl Cenedlaethol, Grŵp Llywio Clefyd Siwgr y DG, a Grŵp Prosiect Lleiafrifoedd Ethnig Clefyd y Siwgr y DG. Bu i ni barhau i gael ein cynrychioli ar Bwyllgor Iechyd Lleiafrifoedd Ethnig Cymru gyfan.

Ym mis Mai, bu i ni helpu Llywodraeth Cynulliad Cymru (LlCC) i lansio a hyrwyddo cam cyntaf ei gynllun gofal llygaid – y cynllun archwilio iechyd llygaid am ddim ar gyfer pobl sydd mewn perygl o ddioddef o glefyd llygaid. Dengys ymchwil fod rhai pobl o gefndiroedd Affricanaidd, Caribïaidd, Indiaidd, Pacistani neu Bangladeshi yn fwy tebygol o ddatblygu symptomau cataractau, glawcoma, clefyd siwgr a chlefydau eraill sy'n gysylltiedig â'r llygaid. Bu i ni wneud trefniadau i gyfieithu'r llenyddiaeth i ieithoedd eraill, argymhellwyd siaradwyr gwadd ar gyfer y lansiad, a rhoddwyd Grŵp Cynulliad Cenedlaethol Cymru mewn cysylltiad â chynghorau cydraddoldeb hiliol (rhai yr ydym yn helpu i'w cyllido a gweithio gyda hwy fel partneriaid), a chyrff o leiafrifoedd ethnig eraill fel AWEMA. Gobeithiwn barhau i weithio ar hyn a chynlluniau eraill gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru yn 2003.




▲ Profion llygaid i Gymry sydd mewn perygl o ddioddef clefyd y llygad. Dengys ymchwil fod rhai grwpiau ethnig yn fwy tebygol o ddioddef, a bu i ni gymryd rhan flaenllaw yn y gwaith o helpu Llywodraeth Cynulliad Cymru i lansio'r cynllun hwn. O'r chwith i'r dde: Jane Hutt AC, Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Nigel Walker, cyn chwaraewr rygbi'r undeb rhyngwladol a phennaeth chwaraeon BBC Cymru, Andrew Houseley, Cyfarwyddwr CCH Gorllewin Canolbarth Lloegr.

## Addysg

Yn ystod 2002, gyda chefnogaeth oddi wrth REC Bae Abertawe a'r Cynghorydd Betty Campbell, bu i ni roi cyflwyniadau ar faterion hil ac amrywiaeth i grwpiau o arolygwyr o Estyn. Bu i ni ddefnyddio'r achlysuron i hyrwyddo ein canllaw i ysgolion ynghylch paratoi polisïau cydraddoldeb hiliol, ein *Fframwaith ar gyfer Arolygiaethau, a Dysgu i Bawb*, ein safon cydraddoldeb ar gyfer ysgolion.

Bu i ni gynghori NIACE Dysgu Cymru ynghylch sut i roi gwybod i bobl o leiafrifoedd ethnig am gyfleoedd dysgu i oedolion, a chyfrannu at sesiwn dau ddiwrnod gyda 60 o staff o Yrfaoedd Cymru Powys, gan ymdrin â materion cyffredinol yn ymwneud â hil, monitro ethnig, a'r dyletswyddau newydd.

Profion llygaid i Gymry sydd mewn perygl o ddioddef clefyd y llygad. Dengys ymchwil fod rhai grwpiau ethnig yn fwy tebygol o ddioddef, a bu i ni gymryd rhan flaenllaw yn y gwaith o helpu Llywodraeth Cynulliad Cymru i lansio'r

cynllun hwn.

O'r chwith i'r dde: Jane Hutt AC, Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Nigel Walker, cyn chwaraewr rygbi'r undeb rhyngwladol a Phennaeth Chwaraeon BBC Cymru, Andrew Houseley, Pennaeth CCH Canolbarth Lloegr.

Ym mis Gorffennaf bu i ni hefyd gynnal gweithdai i rai 15 -16 oed ynghylch cydraddoldeb, hunaniaeth, hiliaeth a gwahaniaethu yng Nghynhadledd 'Un Byd' y Cyngor Addysg mewn Dinasyddiaeth Byd.

## Cyfryngau

Ym mis Ebrill 2002, dathlodd y Gwobrau Hil yn y cyfryngau eu degfed penblwydd. Mae'r gwobrau wedi bod yn gatalydd ar gyfer newid mewn diwydiant sydd yn dechrau adlewyrchu amrywiaeth ddiwylliannol y Brydain fodern. Roeddem yn falch fod y derbyniad y bu i ni ei drefnu yng Nghaerdydd ym mis Tachwedd 2001 yn ymddangos fel pe bai wedi cyfrannu at ddyblu nifer y ceisiadau o Gymru.

Roedd CCH Cymru yn hynod o falch o gynnig ei gefnogaeth i gynllun 'Gweledigaethau Digidol' Sgrîn, a gynigiodd gyfle i wneud tair ffilm fer. Rhoddwyd cefnogaeth i geisiadau oddi wrth aelodau o leiafrifoedd ethnig yng Nghymru.




Ym mis Ebrill, roeddem hefyd yn falch o gefnogi cynllun ffilmiau Gweledigaeth Ddigidol newydd gan Sgrîn, Asiantaeth y Cyfryngau ar gyfer Cymru, BBC Cymru ac Awdurdod Datblygu Cymru. Comisiynodd Sgrîn dair ffilm ffuglen neu ddogfennol 5 i 10 munud mewn ffurfiau digidol, a ddangoswyd am y tro cyntaf yng Ngŵyl Ffilm Ryngwladol Cymru ym mis Tachwedd. Roedd yn galonogol fod y tri a ddaeth i'r rownd derfynol o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig, a ffilmiwyd storïau cryfion yn adlewyrchu amrywiaeth y Gymru fodern.

Derbyniodd swyddfa'r cyfryngau yng Nghymru nifer fawr o ymweliadau oddi wrth ohebwyr ynglŷn a'n gwaith ynghylch y ddyletswydd, ein barn ar ddigwyddiadau hiliol, a'n polisïau ar gyfer ymdrin â gwahaniaethu. Yn 2002, bu i ni ymdrin â thros 80 o ymholiadau yn gysylltiedig â hil oddi wrth ohebwyr print, cyfryngau newydd, radio a theledu.

## Cyfiawnder Troseddol

Ymunodd ein swyddog gweithredu newydd ynglŷn â chydraddoldeb ar gyfer y sector cyfiawnder troseddol â ni yn ddiweddar yn 2001, a threuliwyd misoedd cyntaf 2002 yn cysylltu â'r prif asiantaethau cyfiawnder troseddol yng Nghymru, gan werthuso eu prosiectau, a hyrwyddo'r dyletswyddau newydd. Mae ein strategaeth ar gyfer y sector hwn yn golygu creu partneriaethau gyda fforymau aml-asiantaethol, ymuno â fforymau yn y sector strategol, a gweithio gydag asiantaethau unigol yn ymwneud â chyfiawnder troseddol ar feysydd penodol sy'n peri pryder, er enghraifft helpu gwasanaethau erlyn y goron Dyfed Powys a Gogledd Cymru gyda'u cynlluniau gweithredu cydraddoldeb hiliol.

Yn 2002, bu i ni fynychu Fforwm Trais yn y Cartref De Cymru, a sefydlwyd i ystyried mater sydd wedi ei esgeuluso'n arw, sef trais yn y cartref mewn teuluoedd o leiafrifoedd ethnig. Mae'r fforwm yn dod ag asiantaethau perthnasol at ei gilydd i ddatblygu strategaethau i ymdrin â'r mater hwn sy'n un sensitif yn ddiwylliannol. Mae canllawiau diweddar Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu ar drais yn y cartref a phriodasau gorfodol wedi cyflwyno gwybodaeth ddefnyddiol ac fe'i ddefnyddir yng ngwaith y fforwm.

Bu i ni fynychu cyfarfodydd o bwyllgor strategaeth cydraddoldeb CPS De Cymru a gadeirir gan bennaeth CPS De Cymru, a chodwyd nifer o bryderon. Roedd y pryderon hyn yn cynnwys:

- recriwtio, cadw a datblygu gyrfa staff o leiafrifoedd ethnig yn y gwasanaeth, a'r ffaith eu bod yn cael eu tangynrychioli ar raddfeydd uwch; a
- y duedd bryderus sy'n ymddangos yn yr adroddiad diweddar oddi wrth arolygiaeth gwasanaeth erlyn y goron ei Mawrhydi o erlynwyr yn gollwng elfennau cythruddo hiliol troseddau i sicrhau pleon o euog - mae'r pwyllgor wedi cytuno i atgoffa erlynwyr ei bod er budd y cyhoedd i erlyn troseddau ag ysgogiad hiliol ac i gyflwyno'r darpariaethau yn ymwneud â chythruddo hiliol yn y Ddeddf Trosedd ac Anhrefn 1998.

Bu i ni gyfarfod ag uned cwtogi ar droseddau CCC, sy'n monitro'r cynnydd a wnaed gan gynlluniau cwtogi ar drosedd a gyllidir gan y Swyddfa Gartref yng Nghymru, i

drafod y posibilrwydd o gyllido prosiectau cwtogi ar droseddau sydd yn ymdrin â phryderon penodol cymunedau lleiafrifoedd ethnig, sydd yn byw yn aml mewn ardaloedd lle mae niferoedd y troseddau yn uchel.

Cynhaliwyd trafodaethau rhyngom a'r pedair ardal prawf yng Nghymru a bu i ni gynghori ardal Gogledd Cymru ynghylch sut i lenwi templad y cynllun cydraddoldeb hiliol a gynhyrchwyd gan y Gyfarwyddiaeth Prawf Genedlaethol. Bu i ni hefyd gynghori ardaloedd prawf ynghylch hyfforddiant cydraddoldeb hiliol i swyddogion prawf a staff cynorthwyol.

Cawsom drafodaethau gyda phrif swyddog prawf a rheolwr adnoddau dynol ardal prawf Dyfed Powys (mewn partneriaeth gydag REC Bae Abertawe) ynglŷn â gweithredu eu cynllun cydraddoldeb hiliol. Bu i ni hefyd osod sail ar gyfer gwaith yn y dyfodol gyda swyddogion allweddol ym mhob un o'r pedwar heddlu. Gwahoddwyd ein swyddog cyfiawnder troseddol i fod yn sylwebydd annibynnol ar y profion recriwtio dechreuol i'r heddlu ar gyfer Heddlu De Cymru. Mae ef hefyd wedi cynghori'r heddlu ynglŷn â'i gynllun cydraddoldeb hiliol.

Ynghyd â Dinas a Sir Abertawe, bu i ni drefnu gweithdy llwyddiannus i staff mewn asiantaethau cyfiawnder troseddol, gan gynnwys yr heddlu a'r gwasanaeth carchar, ac aelodau o grwpiau gwirfoddol yn Ne Cymru. Gobeithiwn drefnu digwyddiad tebyg yng Ngogledd Cymru gyda Rhwydwaith Cydraddoldeb Hiliol Gogledd Cymru.

Cawsom drafodaethau hefyd gyda'r bartneriaeth trosedd ac anhrefn yn Nyfed Powys (sy'n cynnwys cynrychiolwyr o blith awdurdodau lleol, yr heddlu, y gwasanaeth iechyd, a chyrff cymunedol) ynghylch sut i ymdrin â phroblem trosedd casineb mewn cymunedau gwasgaredig yn y wlad. Sicrhaodd heddlu Dyfed Powys ni y byddent yn gwneud unrhyw wybodaeth a dderbynient drwy ARCH (Gweithredu yn erbyn Hiliaeth ac Ymladd yn erbyn Homoffobia) – prosiect a anelir at annog pobl i adrodd am ddigwyddiadau – yn rhan o'u gweithdrefnau adrodd yn y prif ffrwd, ac y byddent yn cadw cofnodion llawn o'r camau y byddent yn eu cymryd.

Ar hyn o bryd rydym yn gweithio gyda Phwyllgor Llysoedd Ynadon De Cymru i ddod o hyd i ffyrdd sydd yn fwy effeithiol o ddenu ceisiadau am swyddi o blith aelodau o gymunedau lleiafrifoedd ethnig, er enghraifft drwy ffeiriau recriwtio ar y cyd gydag asiantaethau cyfiawnder troseddol eraill.

Mae ein strategaeth cyfiawnder troseddol cenedlaethol yn rhoi pwyslais ar weithio gyda rhwydweithiau a fforymau aml-asiantaethol i hyrwyddo'r dyletswyddau newydd. Yn 2002, bu i ni adolygu'r maes hwn o'n gwaith yng Nghymru ac daethom i'r casgliad y byddai'n fwy effeithiol canolbwyntio ein hegni ar rwydweithiau sydd yn bwysig yn strategol sydd yn gosod blaenoriaethau polisi eang ar gyfer sectorau cyfan, neu gyda chyrff cyfiawnder troseddol mawr, yn hytrach nag ar rwydweithiau neu fforymau â chylch gorchwyl cul, arbenigol.

Mae'r pedwar pwyllgor strategaeth cyfiawnder troseddol ardal yng Nghymru yn gyfrifol am ddatblygu polisïau cyfiawnder troseddol cydlynus, strategol ar gyfer eu rhanbarth. Mae gan bob pwyllgor gynrychiolaeth o blith uwch swyddogion o'r heddlu, yr ardal prawf, y CPS a'r llysoedd, a llywyddir drosto gan farnwr llys sirol. Yn ystod 2002, bu i ni greu cysylltiadau cryfion gyda'r pwyllgorau.

O ganlyniad, bu i ni wneud cyfraniad pwysig at ystyriaeth Pwyllgor De Cymru o oblygiadau papur ymgynghorol y Swyddfa Gartref ar gyfer De Cymru, 'Cyfiawnder i Bawb', sydd yn argymell newidiadau radical i'r modd y mae asiantaethau cyfiawnder troseddol yn gweithio gyda'i gilydd ar feysydd o ddiddordeb cyffredin. Bu i ni hefyd gefnogi'r dyddiau agored diweddar yn llysoedd y goron yn Ne Cymru, a gyflwynwyd i godi ymwybyddiaeth ymysg cymunedau o leiafrifoedd ethnig o'r gwasanaethau cynnal ar gyfer tystion a dioddefwyr trosedd.

## Gweithio gyda busnes

Mae gan strategaeth genedlaethol CCH ar gyfer gwaith gyda'r sector preifat dair o brif amcanion:

- ymdrin â gwahaniaethu hiliol anghyfreithlon mewn gwaith, darparu nwyddau a gwasanaethau, a dyfarnu contractau masnachol;
- hyrwyddo cydlyniad cymdeithasol; a
- sicrhau mynediad teg a chyfartal i bawb, beth bynnag fo eu cefndir, at gyfranogiad economaidd.

Yn 2002, canolbwyntiodd gwaith CCH ar

bump o brif feysydd:

- mynediad at waith;
- cyfleoedd datblygu gyrfa;
- gallu i gyrchu at gyfalaf dechreuol ac adnoddau eraill ar gyfer busnesau lleiafrifoedd ethnig;
- mynediad at gontractau'r sector masnachol a chyhoeddus ar gyfer busnesau lleiafrifoedd ethnig; a
- mynediad at nwyddau a gwasanaethau.

Yng Nghymru bu i ni ddehongli'r blaenoriaethau hyn o fewn cyd-destun strategaeth genedlaethol uchelgeisiol CCC ar gyfer datblygiad economaidd, 'Cymru'n Ennill'. Nod y strategaeth yw gweld:

> cynnydd mawr mewn gwaith, gan gynnwys hunan-gyflogaeth, gyda phwyslais arbennig ar gymunedau gyda chyfraddau cyfranogi isel – pobl gyda gwell sgiliau ac sydd yn fwy ymrwymedig … mwy o fusnesau newydd sydd yn tyfu .... meithrin busnesau eraill cystadleuol sydd yn tyfu'n gyflym ... [gan arwain at] gymunedau ffyniannus a hyderus.

Bu i ni benderfynu mai'r ffordd gyflymaf ac yn fwyaf effeithiol o gyrraedd busnesau yng Nghymru fyddai gweithio gyda a thrwy gyrff eraill yn y sectorau preifat a chyhoeddus.

Ym mis Mai, bu i ni weithio gyda'r Comisiwn Cyfleoedd Cyfartal, Comisiwn Hawliau Anabledd a phrosiect cyfartaledd mentrau bach a chanolig Awdurdod Datblygu Cymru (ADC/MBC)i sefydlu 'cylchfa amrywiaeth' yn arddangosfa 'Busnes yng Nghymru' y *Western Mail*. Mae hwn yn ddigwyddiad sydd yn cael llawer o sylw, a dyma'r brif arddangosfa ar gyfer busnes yng Nghymru ac mae'n denu'r holl brif asiantaethau gwasanaethau busnes. Dywedodd Prif Weithredwr Cyngor Rheoli Cymru, Christopher Ward, wrthym ein bod 'ar gyfer yr hyn yr ydych yn ceisio ei gyflawni, yn yr union le iawn'.

Ym mis Tachwedd bu i ni gyfrannu at gynhadledd ar 'Gyfleoedd Cyfartal a'r Ddeddf' a gynhaliwyd gan Gonffederasiwn Cymdeithasau'r Gyfraith. Byddwn yn cydweithio a'r conffederasiwn a'r comisiynau cydraddoldeb eraill ar gyfres o weithdai ar gyfer eu haelodau ar ddeddfwriaeth cydraddoldeb yn 2003 a 2004. O'r chwith i'r dde: David Ogbonna, cyfreithiwr corfforaethol y CCH; Gurdip Gill, myfyriwr yn y gyfraith ym Mhrifysgol Morgannwg; Syr Adrian Webb, Is-Ganghellor Prifysgol Morgannwg; Comisiynydd y CCH Cherry Short a'r Arglwydd Taylor o Warwick


Confederation of South Wales Law Societies

Rhestrwyd cynlluniau eraill yn ystod y flwyddyn isod:

- Bu i ni ymuno â gweithgor lleiafrif ethnig Gweithlu Bargen Newydd Cymru.
- Bu i ni roi cyflwyniad i Busnes Cymru ynghylch ein strategaeth ar gyfer gweithio gyda'r sector preifat a llwyddo i ddenu llawer o gefnogaeth ac ewyllys oddi wrth arweinwyr cyrff cynrychioli busnes a fydd yn hanfodol wrth i'n gwaith fynd rhagddo.
- Bu i ni gytuno ar raglen ar y cyd o weithredu gyda TUC Cymru.
- Fe'n cynrychiolir ar bwyllgor llywio prosiect cydraddoldeb ADC/MBC, sydd wedi tyfu'n sylweddol dros y flwyddyn ddiwethaf ac sydd yn parhau y dull mwyaf effeithiol o hyrwyddo ymwybyddiaeth ynghylch materion cydraddoldeb ac arferion da i'r sector yng Nghymru, yn y tymor byr i ganolig.
- Bu i ni weithio gyda Rhaglen Cefnogi Busnesau Ethnig i hyrwyddo diddordebau cymuned busnes y lleiafrifoedd ethnig.
- Bu i ni ymuno'n ffurfiol â Phartneriaeth Datblygu Cyfenter, rhaglen sydd yn cael ei chyllido gan EQUAL ac sydd yn cael ei rhedeg gan ADC. Amcan y bartneriaeth yw dod o hyd i ffyrdd newydd o helpu entrepreneuriaid o gefndiroedd heb fod yn rhai traddodiadol i gael cyllid a chefnogaeth.
- Bu i ni wneud trefniadau i weithio gyda Chynllun Caffaeliad Cymru i helpu busnesau ymhlith lleiafrifoedd ethnig yng Nghymru i ymgeisio yn fwy llwyddiannus am gontractau yn y sector cyhoeddus.
- Rydym yn gweithio ar y cyd gyda Gyrfaoedd Cymru, Addysg a Dysgu Cymru, Swyddfa Cyllido Ewropeaidd Cymru, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Asiantaeth Banc Lloegr yng Nghymru, Partneriaid Cymdeithasol Cymru a Busnes yn y Gymuned.

Ym mis Tachwedd bu i ni helpu Conffederasiwn Cymdeithasau'r Gyfraith De Cymru i drefnu eu cynhadledd, 'Cyfle Cyfartal a'r Gyfraith'. Rhoddodd yr Arglwydd Taylor Warwick, a'n comisiynydd, Cherry Short, areithiau allweddol i gynrychiolwyr cwmnïau'r gyfraith yn Ne Cymru ynghylch y manteision y gall cyfle cyfartal eu dwyn i'w practisys.

Ein strategaeth ar gyfer 2003 yw hyrwyddo cydraddoldeb hiliol drwy gynghreiriau strategol gyda chyrff yn y sectorau cyhoeddus a phreifat ac edrych tuag at y cysylltiadau yr ydym wedi eu gwneud am gefnogaeth.

# 2 DEFNYDDIO EIN PWERAU CYFREITHIOL

Yn 2002 bu i ni dderbyn cyfanswm o 133 o geisiadau am gymorth (o'i gymharu ag 116 yn 2001); roedd 71 yn ymwneud â chyflogaeth (cynnydd o dros 100% ers y flwyddyn flaenorol) ac yr oedd 56 yn ymwneud â materion nad oeddynt yn ymwneud â chyflogaeth (i lawr oddeutu 25% ers 2001). Cynyddodd cwynion ym maes addysg o 14% yn ystod y flwyddyn. Roedd 6 o geisiadau y tu allan i rychwant y ddeddf. Roedd tua hanner y ceisiadau ffurfiol am gymorth yng Nghymru yn 2002 yn ymwneud â chwynion yn erbyn awdurdodau cyhoeddus.

Fel y dengys Tabl 2, roedd tua deuparth y ceisiadau oddi wrth ddynion. Pobl o darddiad Pacistani a gyflwynodd y nifer mwyaf o gwynion (27), a dilynwyd hyn gan geisiadau gan grwpiau Gwyn (23) a Du Caribïaidd (15). O'r 23 o geisiadau gwyn, credai 9 (41%) y gwahaniaethwyd yn eu herbyn oherwydd eu tarddiad cenedlaethol Cymraeg neu Saesneg.

Ni chawsom ein synnu gan y cynnydd mawr mewn ceisiadau yn ystod y flwyddyn – mae ymwybyddiaeth ynglŷn â'n gwaith yng Nghymru wedi cynyddu, yn arbennig gyda'r gweithgaredd hyrwyddo helaeth yn gysylltiedig â'r Ddeddf ddiwygiedig. Mae pobl hefyd wedi clywed am ein pwerau gorfodaeth newydd, sydd wedi codi disgwyliadau.

Ystyriodd pwyllgor cyfreithiol y CCH 101 o geisiadau yn ystod 2002 (er na dderbyniwyd y rhain i gyd yn ystod y flwyddyn galendr). Rhoddwyd cynrychiolaeth gyfreithiol lawn i un ymgeisydd (er y cafodd yr achos ei setlo cyn y gwrandawiad), a chynigiwyd cynrychiolaeth fwy cyfyngedig i 17. Yn ystod 2002, cafodd 16 o achosion eu setlo gan swyddogion cyfreithiol y CCH yng Nghymru heb wrandawiad, a derbyniodd 11 achos gynrychiolaeth drwy gyrff eraill, fel undebau llafar a chynghorau cydraddoldeb hiliol. Ni fu i unrhyw rai o'r ceisiadau eraill dderbyn cymorth pellach. Ond mewn rhai achosion, bu i ni gyfeirio'r cwynion at ein swyddogion polisi oherwydd pryderon ynglŷn â systemau neu arferion gwahaniaethol posibl.

Yn 2002 bu i ni ymchwilio i a chytuno ar welliannau yn ymwneud â chyfle cyfartal gyda chwech o gyrff yn y sector preifat, a dau yn y sector cyhoeddus.

Mae gan ein strategaeth gyfreithiol yng Nghymru dair o brif amcanion: datblygu dulliau amgen ar gyfer datrys cwynion yn ymwneud â gwahaniaethu; sicrhau bod cyngor cyfreithiol ynglŷn â gwahaniaethu hiliol ar gael yn fwy eang; a chynyddu cefnogaeth ar gyfer cyrff cymorth i'r rhai sydd yn cwyno ac yn gweithio gydag undebau llafar i wella'r gwasanaeth y mae aelodau yn ei dderbyn ym maes gwahaniaethu hiliol.

Roedd ein pwyslais yn ystod 2002 ar

### TABL 2: CEISIADAU AM GYMORTH YN ÔL RHYW A GRŴP ETHNIG 2002

| | Gwrywaidd | Benywaidd | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| Bangladeshi | 2 | 0 | 2 |
| Du Affricanaidd | 9 | 1 | 10 |
| Du Caribïaidd | 10 | 5 | 15 |
| Du Arall | 9 | 1 | 10 |
| Tsieineaidd | 1 | 2 | 3 |
| Indiaidd | 2 | 7 | 9 |
| Gwyddelig | 0 | 0 | 0 |
| Eraill | 21 | 10 | 31 |
| *Sipsiwn/Teithwyrr* | *3* | *0* | *3* |
| Pacistani | 26 | 1 | 27 |
| Gwyn | 15 | 8 | 23 |
| **Cyfanswm** | **98** | **35** | **133** |

Noder: Mae Sipsiwn yn grŵp a warchodir o dan Ddeddf Cysylltiadau Hiliol 1976.

### TABL 1: CEISIADAU AM GYMORTH Y CCH YNG NGHYMRU 2002

| | GWAITH | | HEB YMWNEUD Â GWAITH | | ALLAN O RYCHWANT | | CYFANSWM | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Ion – Rhag 2001 | Ion – Rhag 2002 | Ion – Rhag 2001 | Ion – Rhag 2002 | Ion – Rhag 2001 | Ion – Rhag 2002 | Ion – Rhag 2001 | Ion – Rhag 2002 |
| Ceisiadau Ffurfiol | 34 | 71 | 82 | 56 | 0 | 6 | 116 | 133 |

ddatblygu arbenigedd o ran eiriolaeth a chymodi yng Nghymru, ac adlewyrchwyd hynny yn y nifer fawr o achosion a gafodd eu setlo gan swyddogion cyfreithiol yng Nghaerdydd.

## Partneriaeth

Bu i ni barhau i ymchwilio i'r posibilrwydd o ddarparu gwasanaethau cyfreithiol drwy bartneriaethau gyda chyrff gwirfoddol a chymunedol lleol ac undebau llafur yng Nghymru. Bu i ni gynllunio fforwm gwaith achos a chynllun hyfforddi ar gyfer REC a threfnom seminar hyfforddi undydd ar gyfer Rhwydwaith Sector Gwirfoddol Bro Morgannwg ynglŷn â goblygiadau'r ddyletswydd newydd i hyrwyddo cydraddoldeb hiliol ar gyfer cyrff gwirfoddol. Ym mis Medi, arwyddodd UNISON a CCH Cymru i gytuno ar brotocol, 'Working Together' ('Gweithio gyda'n Gilydd'), i gydweithio ar ddarparu gwasanaeth cyfreithiol mwy proffesiynol mewn achosion o wahaniaethu hiliol. Rydym yn gweithio gyda'r TUC i ddefnyddio'r protocol hwn fel sail ar gyfer cytundebau gydag undebau eraill.

## Ymchwil

Cwblhawyd astudiaeth ymchwil, 'Snakes and Ladders' ('Nadroedd ac Ysgolion'), ynghylch rhoi cyngor a chefnogaeth ar gyfer ymgeiswyr sydd yn mynd ag achosion i dribiwnlysoedd cyflogaeth yng Nghymru yn ystod 2002. Roeddem wedi comisiynu'r gwaith oddi wrth Brifysgol Cymru Bangor ar y cyd â'r Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol, y Comisiwn Hawliau Anabledd a'r Comisiwn Cyfleoedd Cyfartal. Cyfrannodd yr LSC a'r CCH 75% o'r £40,000 a dderbyniodd y brifysgol fel grant ymchwil.

Bu i'r adroddiad interim godi'r pryderon canlynol:

- ychydig o wybodaeth oedd ynghylch hawliau a ffynonellau cyngor;
- roedd y seilwaith ar gyfer darparu cyngor, cefnogaeth a chynrychiolaeth yn wan;
- roedd ar ymgynghorwyr angen hyfforddiant ac achrediad priodol;
- nid oedd gan asiantaethau cymorth systemau cyfeirio effeithiol;
- roedd systemau ar gyfer cefnogi cleientau yn aneffeithiol; ac

## Lliwiau gwladgarwch

***Mr Thapa yn erbyn Y Weinyddiaeth Amddiffyn***

Ym 1998, gyda chefnogaeth y CCH, daeth Lance Corporal Harry Thapa â honiad o wahaniaethu hiliol yn erbyn y Weinyddiaeth Amddiffyn, gan honni nad oedd yn cael ond tua 60% o'r hyn yr oedd milwr Prydeinig yn union yr un fath yn ei dderbyn. Roedd yn hawlio hawliau cyfartal gyda milwyr Prydeinig, a £43,000 o iawndal am 15 mlynedd o daliadau ar y raddfa ostyngol.

Cafodd Mr Thapa, sydd yn dod o Gwmbran, De Cymru, ei recriwtio i'r lluoedd arfog o dan gytundeb tairochrog yn 1947 rhwng y DG, India a Nepal, sydd yn cysylltu tâl a phensiynau'r Gurkas â rhai ym Myddin yn India. Mynnai'r Weinyddiaeth Amddiffyn fod y taliadau yn ddigonol, oherwydd bod y rhan fwyaf o'r Gurkas yn ymddeol yn Nepal, lle mae costau byw yn sylweddol is nac yn y DG.

Yn 2002, penderfynodd tribiwnlys cyflogaeth Caerdydd nad oedd ganddo unrhyw awdurdod i ystyried cais Mr Thapa, oherwydd bod y fyddin wedi cynnal amddiffyniad technegol yn nodi ei fod wedi gweithio dramor yn bennaf. Ond er hynny, cytunodd y Weinyddiaeth Amddiffyn i dalu swm oedd yn cyfateb i'w holl ôl dal am ei 15 mlynedd o wasanaeth mewn iawndal i Mr Thapa. Cytunodd y Weinyddiaeth Amddiffyn hefyd i beidio â'i allgau o unrhyw gydraddoli a fyddai'n cael ei gyflwyno i bensiynau'r Gurkas yn y dyfodol.

■ roedd gwybodaeth ystadegol annigonol am wahaniaethu hiliol yng Nghymru.

Gwnaeth yr adroddiad argymhellion ar gyfer ystod eang o gyrff, gan gynnwys y canlynol:

■ dylai CCC ystyried sefydlu gwasanaethau cynghori fel rhan o'u strategaeth ar gyfer ymdrin ag allgau cymdeithasol;

■ dylai'r Gwasanaeth Tribiwnlys Cyflogaeth recriwtio mwy o wragedd a phobl o leiafrifoedd ethnig, a darparu mwy o hyfforddiant yn ymwneud â gwahaniaethu ar gyfer ei aelodau; a

■ dylai asiantaethau gwirfoddol a statudol yng Nghymru wella'r hyfforddiant a ddarparant i ymgynghorwyr, a chymryd camau i wella'r cydlynu rhwng asiantaethau cyngor ac undebau llafar.

Cyhoeddir yr adroddiad ar ein gwefan (www.cre.gov.uk) yn gynnar yn 2003 ac mewn cynhadledd a gynhelir yn haf 2003 i gyflwyno ein cynllun i greu rhwydwaith o weithwyr cynghori yng Nghymru sydd ganddynt arbenigedd mewn gwaith achos yn ymwneud â gwahaniaethu ar sail hil.

## Setlwyd drwy gytundeb

***Achos yn erbyn Ymddiriedolaeth GIG Caerdydd a'r Fro***

Cwynodd bydwraig gymunedol fod Ymddiriedolaeth GIG Caerdydd a'r Fro wedi gwahaniaethu'n hiliol yn ei herbyn. Roedd yr Ymddiriedolaeth yn anghytuno â'i honiad ac roedd yr achos ar ei ffordd at wrandawiad yn y tribiwnlys cyflogaeth.

Ond, gan weithio'n agos gydag UNISON, yn unol a phrotocol 'Working Together' ('Gweithio gyda'n Gilydd'), bu i ni alw cyfarfod gydag Ymddiriedolaeth GIG Caerdydd a'r Fro ac Uned Cydraddoldeb y GIG i drafod yr achos ac i ddod o hyd i ffordd ymlaen heb wrthdaro.

Bu i ni gyrraedd setliad allan o'r llys a chytunodd yr Ymddiriedolaeth i gymryd nifer o gamau. Roedd y rhain yn cynnwys llythyr o ymddiheuriad a swm o iawndal i'r fydwraig; adolygiad o'r gweithdrefnau a oedd wedi arwain at y gwyn; sesiynau datblygu tîm; a hyfforddiant ar gydraddoldeb ac amrywiaeth ar gyfer y gyfarwyddiaeth obstetreg a gynaecoleg, i'w gyflwyno gan Uned Cydraddoldeb GIG Cymru, mewn ymgynghoriad â'r CCH. Gwelir y camau hyn fel datblygiadau cadarnhaol iawn gan bawb ac fel ymateb uniongyrchol i'r materion a godwyd gan yr achos.

# 3 WEITHIO GYDA CHYMUNEDAU

Bu i ni fanteisio ar bob cyfle yn 2002 i ymestyn ac i ddyfnhau ein cysylltiadau gyda chymunedau lleol ym mhob rhan o Gymru.

## Cynghorau cydraddoldeb hiliol

Bu i ni gynnal ein cysylltiadau gyda chynghorau cydraddoldeb hiliol, a oedd i gyd wedi eu lleoli yn Ne Cymru, a chynigiom cefnogaeth i gyrff oedd â diddordeb mewn sefydlu cynghorau cydraddoldeb hiliol yng Ngogledd Cymru ac o bosibl yng Nghanolbarth Cymru.

Caiff RECs eu cyllido ar y cyd gan CCH ac awdurdodau lleol, ond mae'r rhan fwyaf ohonynt yn denu symiau sylweddol oddi wrth gyrff eraill gan gynnwys y Loteri Genedlaethol a chronfeydd ymddiriedolaethau lleol. O ganlyniad i gyfarfodydd rhwng Edwina Hart o Lywodraeth Cynulliad Cymru, RECs a Rhwydwaith Cydraddoldeb Hiliol Gogledd Cymru (NWREN), a CCH, am y tro cyntaf, cynigiodd CCC secondiadau 12 mis, neu yr hyn oedd yn cyfateb yn ariannol i'r holl RECs yng Nghymru a'r NWREN. Rhoddodd hyn adnoddau ychwanegol amhrisiadwy a chyfle i staff CCC ddysgu yn uniongyrchol am faterion yn ymwneud â hil a chymuned.

Caswom gyfle yn Tachwedd i helpu'r All Wales Saheli Association i drefnu y gynhadledd gyntaf yng Nghymru ar gyfer menywod Mwslemaidd. Pwrpas y gynhadledd oedd ysgogi y gwasanaethau cyhoeddus lleol a chenedlaethol i adeiladu eu cysylltiadau gyda'r gymuned Fwslemaidd, ac i helpu menywod i oresgyn eu problemau o dderbyn cymorth o fewn y sectorau iechyd, addysg a gwasanaethau cymdeithasol eraill.



John Harris / Report-digital

## Hiliaeth wledig

Rhoddodd ein cysylltiad agos gyda NWREN gipolwg pwysig i ni ar raddfa'r hiliaeth a gwahaniaethu sydd ynghudd ac yn aml yn cael ei wadu mewn cymunedau gwledig. Daeth adroddiadau gan y cyfryngau a thystiolaeth anecdotaidd am deuluoedd y gorfodwyd iddynt adael eu cartrefi oherwydd ofn i'n sylw. Gyda chefnogaeth Cyngor Sir y Fflint a Heddlu Gogledd Cymru, bu i ni ddarganfod swyddfa a fyddai yn cael ei rhannu, ond a fyddai'n annibynnol i NWREN a'r CCH yng Ngogledd Cymru. Mae llwyddiant ein partneriaeth wedi denu llawer iawn o ddiddordeb gan gyrff eraill yng Nghymru ac yn fwy eang yn y DG.

## Cynadleddau a Digwyddiadau

Yn ystod 2002, cawsom anawsterau gyda staffio, a arweiniodd yn anffodus at ddyfalu a gwrthdaro yn y cyfryngau Cymreig. Effeithiwyd ar ein gwaith i ryw raddau. Teimlem ei bod yn bwysig rhoi ein cysylltiadau gyda rhai cymunedau o leiafrifoedd ethnig ar droedle newydd, a phenderfynwyd cynnal cynhadledd fawr yn ymwneud â'n gwaith.

Ym mis Gorffennaf, bu i ni wahodd dros 150 o gynrychiolwyr o gymunedau lleiafrifoedd ethnig o bob rhan o Gymru i 'Cysylltu â Chi', digwyddiad agored yn Neuadd y Ddinas, Caerdydd, i drafod eu barn am gydraddoldeb hiliol ac i ddarganfod a oeddem yn gwneud yr hyn y disgwylid i ni ei wneud. Rhoddodd gyfle unigryw i bawb oedd yn bresennol gael trafodaeth onest, gwneud cysylltiadau newydd a chytuno ar agenda gyffredin ar gyfer gweithio tuag at gydraddoldeb hiliol yng Nghymru. Pwysleisiodd Beverley Bernard, ein cadeirydd gweithredol ar y pryd, bwysigrwydd gweithio gyda'r holl gymunedau i greu cymunedau diogel, cydlynus a chyfiawn yng Nghymru ac ym Mhrydain. Mae CCH yn gobeithio cynnal digwyddiadau tebyg eraill yn 2003, ar draws Prydain, i gadw mewn cysylltiad â gwahanol gymunedau.

Roeddem hefyd yn hynod o falch o helpu Cymdeithas Saheli Cymru Gyfan i drefnu Cynhadledd Bob Dydd y Merched Mwslemaidd ym mis Tachwedd, y cyntaf i wragedd Mwslemaidd yng Nghymru. Ar y diwrnod, roedd yn ddigalon gennym glwyed am y camdrin dyddiol y mae plant yn ei wynebu yn yr ysgol ac yn yr iard chwarae. Pwrpas y gynhadledd oedd annog gwasanaethau cyhoeddus lleol a chenedlaethol i ddatblygu gwell cysylltiadau gyda'r gymuned Fwslemaidd, gan edrych y tu hwnt i'r ffaith eu bod yn aelodau o grwpiau lleiafrifoedd ethnig yng Nghymru at yr anawsterau mwy ymarferol oedd ganddynt o gael mynediad at iechyd, addysg a gwasanaethau cymdeithasol eraill.

Ym mis Awst, bu i ni gymryd rhan yn Eisteddfod Genedlaethol Cymru am y tro cyntaf ac fe'n croesawyd yn gynnes gan lawer o gyrff fel CEFN (mudiad hawliau sifil Cymraeg). Gwelwyd ein presenoldeb fel cam cadarnhaol

tuag at greu cysylltiadau newydd gyda'r gymuned Gymraeg – cymuned sydd wedi bod yn amheus yn hanesyddol o'n safbwynt ein persbectif ar yr iaith Gymraeg.

## Pobl Ifanc

Ym mis Rhagfyr, bu i ni gyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig i ymchwiliad Pwyllgor Dethol Materion Cymreig Tŷ'r Cyffredin i ymrymuso plant a phobl ifainc yng Nghymru. Bu i ni groesawu'r cyfle i gyfrannu, oherwydd bod gan blant a phobl ifainc rôl hanfodol bwysig i'w chwarae i ddileu hiliaeth a datblygu cysylltiadau hiliol da yng Nghymru.

Bu i ni ddarparu gwybodaeth gyffredinol am gyfleoedd bywyd pobl ifainc o leiafrifoedd ethnig yng Nghymru, ynghyd â gorolwg cyffredinol ar ein gwaith yn y maes hwn. Disgwylir argymhellion y pwyllgor i'r Llywodraeth a CCC yn 2003.

Ar ôl i ni gael ein hysbrydoli gan lwyddiant Cynhadledd 'Equal Futures' y CCH yn yr Alban, a ymchwiliodd i'r syniad o ddinasyddiaeth ym Mhrydain heddiw, bu i ni ddechrau gweithio ar ddigwyddiad tebyg ar gyfer pobl ifainc yng Nghymru. Ein hamcan yw annog pobl ifainc i feddwl am genedligrwydd, hunaniaeth, diwylliant a natur ddinistriol hiliaeth, a chymryd cyfrifoldeb am greu cymdeithas fwy cyfartal. Cynhelid y gynhadledd mewn partneriaeth gyda Plant yng Nghymru, gyda chefnogaeth oddi wrth ACCAC.

## Digwyddiadau Hiliol

Bu i hiliaeth a lloches fynnu lle yn y penawdau yn 2002. Roedd nifer y digwyddiadau hiliol a adroddwyd yn y cyfryngau, ac o ardaloedd annisgwyl yng Nghymru, yn dystiolaeth ddifrifol o ystod y dasg yr oeddem yn ei hwynebu.

- Ym mis Ionawr, cafodd tri dyn o Gaernarfon, grŵp o feddwyn mewn gwirionedd, eu carcharu am 16 mis am eu rhan mewn ymosodiad yn dilyn 11 Medi ar bedwar o ddynion Bangladeshi oedd yn mynd yn ôl i'w fflat yng Nghaernarfon.
- Ym mis Mawrth, cafodd cyn aelod o'r Ku Klux Klan oedd yn byw ym Maesteg ei garcharu am 3 mis am aflonyddu'n hiliol ar siopwr Asiaidd.




Ym mis Awst am y tro cyntaf roedd gan CCH Cymru bresenoldeb yn yr Eisteddfod Genedlaethol.

- Ym mis Mehefin, bu farw Mohammed Ashraf o drawiad ar y galon ar ôl gweld ymosodiad gan gang hiliol o 12 o ddynion gwynion ar addolwyr mewn oed yn ei gynulleidfa tra'r oeddynt ar eu ffordd i'r mosg lleol yn Llanelli.
- Yn Abertawe gerllaw, cafodd adeilad y gynulleidfa Hebreig ei ddifwyno gydag arwyddion a sloganau hiliol, malwyd ffenestri a chafodd ysgrythurau, gan gynnwys sgrôl 300 mlwydd oed, eu rhwygo y tu allan.

## Lloches a Mewnfudo

Bu i'r ymdriniaeth a roddwyd i loches a mewnfudo yn y wasg dabloid gyfrannu at elyniaeth gyhoeddus gynyddol at ffoaduriaid a rhai oedd yn chwilio am loches. Am bob un oedd yn pryderu am eu lles a'u diogelwch, roedd llawer o rai eraill a oedd yn cytuno â her y papurau tabloid – 'nid ar ein stepen drws ni'. Am y ddau reswm hwn, gwrthodwyd Ysbyty Sully, cyn ysbyty seiciatrig ym Mro Morgannwg, fel canolfan llety i hyd at 750 o geiswyr lloches.

Bu i ni ddefnyddio pob cyfweliad gyda'r cyfryngau fel cyfle i herio'r rhagfarn yn erbyn rhai sy'n chwilio am loches a ffoaduriaid, yn ogystal ag yn erbyn cymunedau o leiafrifoedd ethnig sydd wedi ymsefydlu yma ers amser maith.

## Yr Iaith Gymraeg a datganoli

Bu i ni gyllido'n rhannol y gynhadledd 'Cymunedau Cymraeg a Chreu Cymru Ddwyieithog' Fforwm yr Iaith Gymraeg a gynhaliwyd yn Llandrindod ym mis Mai. Bu'r digwyddiad yn llwyfan i drafod y materion pwysig sy'n wynebu cymunedau Cymraeg. Fel y bu i ni adrodd yn ein hadroddiad blynyddol ar

gyfer 2001, fe'n siomwyd gyda rhai o'r sylwadau ynghylch mater mewnfudo a'i effeithiau ar 'gadarnleoedd y cymunedau Cymraeg'. Yn ein barn ni, bu i'r driniaeth a gafwyd yn y wasg wedi peri i'r sefyllfa fynd yn fwy ymfflamychol. Gwnaethom y cyfan oedd yn bosibl i dawelu'r sefylla drwy alw am ymbwyllo a chyhoeddi datganiadau i'r wasg. Yr oeddem yn gweld y gynhadledd fel cyfle i bwysleisio'r egwyddor honno ac ni chawsom ein siomi.

Ers hynny rydym wedi cynnal cyfarfodydd rheolaidd gyda chynrychiolwyr o lobi'r iaith Gymraeg fel CEFN a Bwrdd yr Iaith Gymraeg i gryfhau ein sefyllfa.

Ym mis Gorffennaf 2002, cyhoeddwyd gan CCH canllaw i fonitro ethnig, fel rhan o'r canllawiau anstatudol i helpu awdurdodau cyhoeddus i gwrdd â'u dyletswyddau newydd o dan y Ddeddf Cysylltiadau Hiliol ddiwygiedig. Mae datganoli yn adlewyrchu ymwybyddiaeth genedlaethol gynyddol yng Nghymru, Lloegr a'r Alban gyda llawer o bobl yn dymuno i'w hunaniaeth genedlaethol gael ei chydnabod. Oherwydd ein bod yn ymwybodol o'r ymateb blin i absenoldeb blwch ticio Cymreig yng nghyfrifiad 2001, penderfynodd CCH datblygu fersiynau wedi eu hehangu rywfaint o'r cwestiynau ethnig gwreiddiol.

Ym mis Awst, bu i ni gymryd rhan mewn gweithdy a drefnwyd gan y Swyddfa Ystadegau Cenedlaethol i gynhyrchu adroddiad ar bynciau o lu o ffynonellau gwahanol yn ymwneud â 'Chenedligrwydd a hunaniaeth Cymru a'r iaith Gymraeg' yn seiliedig ar ddata o gyfrifiad 2001, Arolwg y Gweithlu a ffynonellau eraill. Bydd yr adroddiad yn cynnwys cymysgedd o dablau, mapiau, siartiau a sylwebaeth. Bu i ni bwysleisio pwysigrwydd data ystadegol diweddar a dibynadwy ar gynnydd socio-economaidd y cymunedau o leiafrifoedd ethnig yng Nghymru. Bydd yr adroddiad ar gael yn 2003.

## Moderneiddio gwasanaethau cydraddoldeb hiliol lleol

Bu i'r paratoadau hir ar gyfer diwygio agwedd CCH at gyllido gwaith cydraddoldeb hiliol lleol arwain yn y diwedd at lansio Getting Results ym mis Rhagfyr 2002. Mae'r pecyn yn cynnwys tair dogfen: *Investing in communities: a policy framework for awarding grants, A compact of relations between CRE and organisations receiving section 44 grants, a A code of practice for funding racial equality services.*

Bu i'r dogfennau gyflwyno strategaeth CCH ar gyfer cysylltu cyllido gwasanaethau cydraddoldeb hiliol lleol gyda safonau mwy llym ar gyfer ymdrin ag anghyfartaleddau cymdeithasol. Ein hamcanion tymor hir yw ehangu mynediad at wasanaethau cydraddoldeb hiliol lleol sydd yn ardderchog yn gyson, gwella atebolrwydd a datblygu partneriaethau gwaith effeithiol gyda'r sector gwirfoddol.

Yn ymarferol bydd hyn yn golygu na fyddwn bellach yn darparu cyllid i alluogi cyrff i fodoli yn unig – er enghraifft drwy roi arian tuag at gostau cyflogau neu weithgareddau eang. Yn hytrach disgwylir i gyrff ganolbwyntio ar y gwahaniaeth y gobeithiant ei wneud drwy ein grantiau. Mae'r modd y byddant yn ymdrin â'u hamcanion – er enghraifft drwy waith achos cyfreithlon neu ymgyrchoedd addysg gyhoeddus – yn fater iddyn nhw. Yr hyn y bydd CCH ei angen/arnom ei hangen os ydym yn mynd i gyllido corff yw tystiolaeth fod y canlyniadau y mae wedi eu nodi yn ei gais am grant yn berthnasol i'r cymunedau a wasanaetha, a bod ganddo'r medr trefniadaethol i weithredu'n effeithiol.

Bydd y drefn cyllido newydd, a ddaw i rym ar 1 Ebrill 2003, yn ymdrin â dau fath o gyllido:

- cefnogaeth strategol neu dymor hir ar gyfer nodau a gytunwyd ar y cyd; a
- chyllid datblygu ar gyfer cyfnodau sefydlog.

Wrth i gyrff lleol ddechrau cyflawni canlyniadau, bydd CCH/byddwn yn disgwyl gweld cymunedau lle mae pobl o bob cefndir:

- yn gwybod beth sydd arnynt ei eisiau, a bod ganddynt bwer a dylanwad gwirioneddol;
- yn ymwneud â llunio'r gwasanaethau y mae arnynt eu hangen, ac yn cymryd rhan mewn gwella eu cymdogaethau;
- yn teimlo'n ddiogel, gan wybod eu bod yn perthyn;
- yn cydnabod eu cyd-ddinasyddion fel rhai sydd yn gyfartal iddynt, yn mwynhau'r un hawliau;
- yn ymddiried yn yr awdurdodau cyhoeddus

sydd yng ngofal cynnal cysylltiadau cymunedol da; ac

- yn gwybod bod gan bawb ran yn y gwaith o sicrhau lles y lle y maent yn ei alw'n gartref.

Nodwyd pedair o brif ffynonellau cyllid a bydd y CCH yn croesawu cynlluniau a fydd:

- yn helpu i greu cenhedlaeth newydd o arweinwyr mewn cymunedau;
- yn hyrwyddo ac yn datblygu tir cyffredin rhwng gwahanol gymunedau lleol;
- yn ymrymuso cymunedau i ddod o hyd i'w hatebion eu hunain yn hytrach na gosod atebion o'r tu allan; ac
- yn annog pobl o grwpiau sy'n arbennig o ynysig neu sydd ar yr ymylon i gymryd mwy o ran yn y modd y mae eu cymuned yn cael ei redeg.

Bu i CCH/ni ddweud wrth y RECs yng Nghymru a chyrff eraill sy'n derbyn cyllid oddi wrthym am ein penderfyniadau yn Chwefror 2002. Ffurfiwyd gweithgor ar y cyd, gyda chynrychiolwyr o'r holl bartïon dan sylw, gan gynnwys awdurdodau lleol, adrannau'r llywodraeth a Ffederasiwn Prydain y RECs. Lansiwyd gan CCH/Bu i ni lansio ymarferiad ymgynghori cynhwysfawr. Seiliwyd hwn ar arolwg holiadur, a anfonwyd at amrediad eang o gyrff, ac ar gyfarfodydd defnyddiol iawn y daeth llawer o bobl iddynt, gyda RECs ac eraill, ym mhob rhanbarth a gwlad.

Bu i ni dderbyn 163 o ymatebion i'r holiadur. Mynegodd y rhai oddi wrth y RECs, er eu bod fras yn gadarnhaol, amheuaeth ddealladwy ynglŷn â graddfa'r newidiadau a argymhellir, yn ogystal â phryderon am hyfforddiant, a'r amserlen. Roedd eraill, gan gynnwys rhai RECs yn frwdfrydig iawn am yr agwedd newydd. Teimlent fod yn hen bryd i'r newid ddigwydd ac y byddai'n sicrhau bod y CCH a'r RECs yn cyd-fynd â dulliau o weithio a chyllid a oedd yn gyffredin mewn mannau eraill.

# 5 GWELLA EIN GWASANAETHAU

Bydd staff yn CCH Cymru yn cofio 2002 fel blwyddyn o newid a gwelliant yn ein gwasanaethau a'n strwythurau.  Oherwydd ymddiswyddiad Dr. Mashuq Ally fel pennaeth CCH Cymru ym mis Gorffennaf, rheolodd Dharmendra Kanani, a oedd ar y pryd yn Bennaeth CCH yr Alban, ac sydd bellach yn Gyfarwyddwr y Gwledydd, Rhanbarthau a Chymunedau, swyddfa CCH Cymru am weddill y flwyddyn.  Rydym yn gobeithio y bydd pennaeth newydd yn cael ei recriwtio erbyn diwedd 2003.

Er gwaethaf cyfnod anodd, gwnaethom lawer i wella ein gwasanaethau yng Nghymru.

**Adolygiad Gwerth Gorau**

Ym Mawrth 2002, cynhyrchodd yr Asiantaeth Gwella a Datblygu adroddiad yn amlinellu prif ddarganfyddiadau'r arolwg gwerth gorau yr oedd y CCH wedi ei gomisiynu ganddo yn 2001. Canolbwyntiodd yr adolygiad ar y meysydd canlynol:

- strwythur;
- rhoi ein gweledigaeth, cenhadaeth a gwerthoedd ar waith;
- gwelliannau mewn prosesau;
- llywodraethu;
- cyfathrebu (rheoli gwybodaeth a hysbysrwydd critigol);
- datblygu staff; ac
- datblygu cynllunio busnes a rheoli perfformiad effeithiol.

Gwnaeth IDeA argymhellion ar bob un o'r meysydd hyn ac, ar ddiwedd y flwyddyn, roedd rhaglen waith ar y gweill.  Roedd yr hyn a gyflawnwyd gennym yn 2002 yn cynnwys:

- cyflwyno strwythur trefniadaethol newydd i adlewyrchu a chyflwyno blaenoriaethau strategol y CCH;
- datblygu tîm rheoli uwch newydd;
- datblygu system gwerthuso perfformiad newydd yn seiliedig ar hyfedredd;
- datblygu timau prosiect matrics; a
- datblygu set o werthoedd ar gyfer y CCH.

Dylai'r strwythur newydd fod wedi ei sefydlu yn bendant yn gynnar yn y flwyddyn newydd. Bydd Swyddfa CCH Cymru yn gweld newid sylweddol o ganlyniad.

Sefydlwyd timau prosiect tymor byr, i wneud argymhellion ynghylch gwell cyfathrebu mewnol, rhoi gwerthoedd y corff ar waith a chod ymddygiad ar gyfer staff.  Bu i ni fonitro'r newidiadau a gyflwynwyd drwy'r arolwg gwerth gorau ym mhob cam o'r broses, yn unol â'n cynllun cydraddoldeb hiliol CCH.

## Hyfforddiant

Trefniwyd nifer o gyrsiau hyfforddi mewnol yn ystod 2002 i wella gwasanaethau i gwsmeriaid a dealltwriaeth o'r gyfraith.  Roedd y rhain yn cynnwys cyrsiau ar y Ddeddf Gwarchod Data, y Ddeddf Hawliau Dynol, Rheoli Risg, Saesneg Syml, a'r Ddeddf Cysylltiadau Hiliol ddiwygiedig.  Yn unol â'n dyletswyddau o dan ein Cynllun Iaith Gymraeg, bu nifer o'n swyddogion yn swyddfa CCH Cymru hefyd yn derbyn gwersi Cymraeg.

## Cyhoeddiadau

Bu i ni barhau i weithio'n agos gyda'n gwasanaeth cyhoeddiadau corfforaethol yn Llundain, i ofalu bod ein cyhoeddiadau ar y ddyletswydd newydd i hyrwyddo cydraddoldeb hiliol, a theitlau cyffredinol eraill – er enghraifft *Chi Efallai, taflen ar y Ddeddf Cysylltiadau Hiliol a hawliau pobl; Cynllun Cydraddoldeb Hiliol y CCH*, a'n cynllun cyhoeddiadau o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth – i gyd yn cael eu cyfieithu i'r Gymraeg.

## Pwyllgor CCH Cymru, 31 Rhagfyr 2002



### CHERRY SHORT

**Comisiynydd y CCH (Ebrill 1998 -);** Cynghorydd; Cyngor Sir Caerdydd; cadeirydd, Pwyllgor Safleoedd Sipsiwn Cyngor Caerdydd; aelod, Pwyllgor Cyfleoedd Cyfartal Sir Caerdydd; aelod, tasglu'r llywodraeth ar weithredu rhaglenni Lles i Waith a rhaglenni'r Fargen Newydd yng Nghymru; aelod cenedlaethol; Fforwm Hil, Addysg a Chyflogaeth y Swyddfa Gartref; aelod o'r pwyllgor rheoli; Plant yng Nghymru; ymgynghorydd ar Hil i Raglen Diploma Gwaith Cymdeithasol Prifysgol Cymru Caerdydd; swyddog prawf; Gwasanaeth Prawf De Morgannwg; ymgynghorydd sicrhau ansawdd, Consortiwm Ôl Gymhwyso Cymru; cyn gadeirydd Cyngor Cydraddoldeb Hiliol Caerdydd a'r Fro; cyd-awdur, *Working with Difference* (CCETSW 1997).



### KHURSHID AHMED

**Comisiynydd y CCH (Ebrill 2002 – );** Cyfarwyddwr Anweithredol, Ymddiriedolaeth GIG Grŵp Ysbytai Dudley; cyn brif weithredwr cynorthwyol a phennaeth uned cysylltiadau hiliol a chyfle cyfartal, Cyngor Dinas Birmingham; aelod, yr ymchwiliad swyddogol i derfysgoedd Danall yn Sheffield (1995 – 1996); cadeirydd, Cymdeithas Genedlaethol Pacistaniaid Prydeinig; Cadeirydd, Cyngor Cydraddoldeb Hiliol Dudley; cadeirydd, Partneriaeth Gymunedol (Strategol) Dudley; ymgeisydd Llafur dros lywodraeth leol; cadeirydd, Plaid Lafur etholaeth Gogledd Dudley.



### GITA SOOTARSING

**Comisiynydd y CCH (Gorffennaf 1999 – );** Aelod annibynnol, Awdurdod Hyfforddi a Datblygu'r Heddlu Canolog; enillydd, y cyntaf i ennill y 'Windrush High Flyer Award; dosbarth Cyflawniad mewn Busnes Bach (1999); aelod, Rhanbarth Canol Llundain, Panel Tribiwnlysoedd Cyflogaeth ar gyfer Cymru a Lloegr; is-gadeirydd, Awdurdod Heddlu Essex; cyn gyfarwyddwr gweithredol, Ymgynghorwr Rheoli Ionian;cyn aelod, Grŵp Ymgynghorol Cyflogaeth yn ymwneud â Chysylltiadau Hiliol (Grŵp Gweinidogaethol yr AAC (DfEE)); gyrfa flaenorol gyda Banc Lloegr.



### KAMALJEET JANDU

**Comisiynydd y CCH (Mehefin 2000 – );** Aelod; Pwyllgor Dyletswydd Gyhoeddus y CCH yn gyfrifol am Ddeddf Cysylltiadau Hiliol (Diwygiad) 2000; rheolydd amrywiaeth cenedlaethol, Ford Prydain (yn gyfrifol am newid diwylliant trefniadaethol a sefydlu rhwydwaith o gynghorau amrywiaeth drwy'r cwmni); cyn swyddog datblygu polisi, Cynghrair Undebau Llafur (yn gyfrifol am bolisi ar gydraddoldeb hiliol a gwaith, trefnu cefnogaeth yr undebau llafur i Ymgyrch Teulu Stephen Lawrence, a sefydlu grŵp tasg ar hiliaeth sefydliadol); cyn swyddog datblygu economaidd, Bwrdeistref Ealing yn Llundain; cyn gynrychiolydd y TUC Ewropeaidd, Pwyllgor Economaidd a Materion Cymdeithasol, Comisiwn Ewropeaidd (yn gyfrifol am waith ar y Gyfarwyddiaeth Triniaeth Gyfartal); a chyn aelod, panel ymgynghorol i'r Pedwerydd Arolwg Cenedlaethol ar Leiafrifoedd Ethnig. Fe'i hyfforddwyd yn economegydd, ac mae wedi cyhoeddi ym meysydd hil ac amrywiaeth.

*Mae'r Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol*

*yn gweithio mewn partneriaeth ag unigolion*

*a sefydliadau tuag at greu cymdeithas deg a chyfiawn*

*sydd yn gwerthfawrogi amrywiaeth ac yn cynnig*

*cyfle cyfartal i bawb weithio, dysgu, a byw*

*eu bywydau heb orfod dioddef anffafriaeth,*

*rhagfarn na hiliaeth.*

## SWYDDFEYDD


**PRIF SWYDDFA**
St Dunstan's House
201-211 Borough High Street
Llundain
SE1 1GZ
☎ 020 7939 0000

**BIRMINGHAM**
Lancaster House (3rd floor)
67 Newhall Street
Birmingham
B3 1NA
☎ 0121 710 3000

**LEEDS**
Yorkshire Bank Chambers
(1st floor)
Infirmary Street
Leeds
LS1 2JP
☎ 0113 389 3600

**MANCCEINION**
Maybrook House (5th floor)
40 Blackfriars Street
Manchester
M3 2EG
☎ 0161 835 5500

**YR ALBAN**
The Tun
12 Jackson's Entry
off Holyrood Road
Edinburgh
EH8 8PJ
☎ 0131 524 2000

**CYMRU**
Tŵr Y Ddinas (3eg llawr)
Ffordd y brodyr llwydion
Caerdydd
☎ 02920 729 200


**www.cre.gov.uk**